**Eglwys Annibynnol Y Priordy, Caerfyrddin**

**Hysbysiad Polisi Diogelu Data – Aelodau a Chyfeillion yr Eglwys**

## Cyflwyniad

Mae swyddogion Eglwys Annibynnol y Priordy (a enwir "y Priordy" o hyn ymlaen) yn casglu a chadw data personol ynglŷn ag aelodau a chyfeillion yr Eglwys. Mae'r polisi diogelu data hwn yn egluro'r hyn fydd y Priordy'n ei wneud gyda'ch data personol a hefyd eich hawliau dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

## Pa ddata rydym yn ei gasglu amdanoch?

Rydym yn casglu a chadw'r wybodaeth isod am ein haelodau a'n cyfeillion:

- Enw.
- Gwybodaeth gyswllt gan gynnwys cyfeiriad, côd post, rhifau ffôn a chyfeiriad e-bost.
- Manylion banc (ar gyfer taliadau drwy archeb banc).
- Cyfeirnod treth ac yswiriant gwladol (ar gyfer hawlio ad-daliad treth incwm – rhodd gymorth).
- Cyfraniadau at gynhaliaeth yr achos.

## Sut byddwn yn defnyddio'ch data personol?

Defnyddir eich data er mwyn:

- Cadw cofnod o aelodau a chyfeillion y Priordy.
- Cadw mewn cyswllt â chi er mwyn eich hysbysu am weithgareddau a newyddion y Priordy.
- Cadw cofnod o'ch cyfraniadau at gynhaliaeth yr achos neu'r Genhadaeth.

## Beth yw'r Sylfaen gyfreithiol o fewn y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol dros gasglu a phrosesu gwybodaeth amdanoch?

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn galluogi'r Priordy i gasglu a chadw data personol dan gategorïau cyfreithiol penodol. Rydym yn casglu a phrosesu'r data dan y categori 'diddordeb busnes cyfreithlon' (gwybodaeth sy'n rhaid i ni ei chadw'n gyfreithiol) a'r categori "caniatâd" (gwybodaeth ar gyfer cadw mewn cyswllt).

Rydym yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliad Data Cyffredinol drwy gadw data personol yn gyfredol, drwy gadw'r data'n ddiogel; drwy ddileu neu ddinistrio'r data'n ddiogel, drwy beidio â chasglu na chadw data gormodol neu ddianghenraid, drwy ddiogelu data personol rhag ei golli neu'i gamddefnyddio a thrwy sicrhau fod gennym weithdrefnau priodol ar gyfer diogelu data personol.

## Rhannu eich data personol

Bydd eich data personol yn cael ei gadw'n hollol gyfrinachol gydag elfennau ohono ond yn cael eu rhannu ag aelodau eraill y Priordy er mwyn cyflawni gweithgareddau penodol a dilys o fewn yr Eglwys. Ni fydd y data'n cael ei rannu ag unrhyw un nad yw'n gysylltiedig â'r Priordy heb eich caniatâd.

Mae'r Priordy'n cyhoeddi Adroddiad Blynyddol. Yn unol â'r penderfyniad yn y Cwrdd Eglwys a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2018, bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys rhestr o aelodau a chyfeillion y Priordy. Ni fyddwn yn cyhoeddi cyfeiriadau nac unrhyw fanylion am gyfraniadau ariannol aelodau a chyfeillion.

**Pwy sydd yn cael mynediad i'r data ac am ba hyd y cedwir eich data?**

Mae data personol aelodau a chyfeillion yn cael ei gadw'n ddiogel yn electronig neu mewn ffeiliau. Dim ond y Gweinidog a Swyddogion y Priordy sy'n cael gweld y data ac nid yw'n cael ei rannu gydag unigolion na sefydliadau eraill.

Cedwir y wybodaeth amdanoch tra byddwch yn aelodau neu'n gyfeillion i'r Priordy. Byddwn yn archifo'r wybodaeth amdanoch am **chwe** blynedd ar ôl i'ch aelodaeth ddod i ben (neu ar ôl i gyfraniad gan gyfeillion ddod i ben). Ar ôl **chwe** blynedd caiff yr holl wybodaeth amdanoch ei dileu.

**Beth yw'ch hawliau dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol?**

Mae gennych yr hawliau canlynol:

- I ofyn am gopi o'r data personol sydd gan y Priordy amdanoch.
- I ofyn i'r Priordy gywiro unrhyw ddata personol sy'n anghywir neu heb fod yn gyfredol.
- I ofyn i'r data personol gael ei ddileu os nad yw'n angenrheidiol i'r Priordy gadw'r data.
- I wrthwynebu neu ofyn am gyfyngu prosesu'r data (dan rai amgylchiadau).

Os ydych yn dymuno cael mynediad i unrhyw ddata sydd gennym amdanoch, cywiro unrhyw wallau, dileu'ch manylion neu gyfyngu ar unrhyw brosesu ar y data, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â'r Gweinidog neu'r Ysgrifennydd Gohebol.

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd.